# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 17/03/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Y Gyllideb Materion Gwledig

**C2 Lorraine Barrett:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y gyllideb Materion Gwledig yn 2010-11? OAQ(3)1005(RAF) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Blaenoriaeth yr Adran Materion Gwledig yw cyflawni ei hymrwymiadau yn nogfen 'Cymru'n Un'. Mae cyllid ar gael i'n cynorthwyo gyda'n rhaglen o ddileu tiwbercwlosis, i roi ein hymrwymiadau yn y cynllun datblygu gwledig ar waith ac i ddechrau ar y gwaith o gyflwyno'r cynllun cymorth i newydd ddyfodiaid.

*Atebwyd cwestiynau 3 i 8 yn ystod y Cyfarfod Llawn.*

*Tynnwyd cwestiynau 9, OAQ(3)1012(RAF), a 10, OAQ(3)1014(RAF), yn ôl.*

### Yr Economi Wledig

**C11 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi wledig yng Nghymru? OAQ(3)1000(RAF) [W]

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i gefnogi ac i ddatblygu economi Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig. Er bod gan yr economi wledig rai nodweddion unigryw, rhaid iddi gael ei gweld yn rhan o'r economi gyffredinol. Mae amrywiaeth o raglenni'n cael eu cyflawni er mwyn cefnogi cynaliadwyedd economi Cymru at y dyfodol.

### Busnesau Gwledig Cynaliadwy

**C12 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau gwledig cynaliadwy? OAQ(3)1017(RAF)

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i sicrhau bod ein cymunedau gwledig yn parhau i fod yn gynaliadwy ac mae hyn yn cynnwys darparu cymorth i fusnesau gwledig. Mae 'Cymru'n Un' yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer datblygu a chefnogi economi Cymru.

### Pobl Ifanc a’r Diwydiant Ffermio

**C13 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymhellion ariannol i bobl ifanc ar gyfer mentro i’r diwydiant ffermio yng Nghymru? OAQ(3)0998(RAF)

**Elin Jones:** Yn ogystal â’r cymorth grant o hyd at £15,000 sydd ar gael o dan y cynllun cymorth i newydd ddyfodiaid, i gefnogi’r unigolion hynny sy’n ymsefydlu fel pennaeth daliad am y tro cyntaf, mae’r gwasanaeth Cyswllt Ffermio yn cynnig hyfforddiant â chymhorthdal yn ogystal â chyngor ac arweiniad.

### Undebau’r Ffermwyr

**C14 Chris Franks:** Pa drafodaethau diweddar y mae’r Gweinidog wedi’u cael gydag undebau’r ffermwyr? OAQ(3)0980(RAF)

**Elin Jones:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag undebau’r ffermwyr a chynrychiolwyr y diwydiant. Yn ogystal, mae fy swyddogion yn cysylltu’n rheolaidd â hwy ac mae cynrychiolwyr undeb yn eistedd ar nifer o’n grwpiau rhanddeiliaid.

### Glastir

**C15 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun Glastir? OAQ(3)1006(RAF) [W]

**Elin Jones:** Fe’ch cyfeiriaf at y datganiad cynhwysfawr a wneuthum ar y pwnc hwn yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mawrth.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Cynllun Gweithredu Aer Glân

**C10 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cynllun gweithredu aer glân ar gyfer Port Talbot? OAQ(3)1185(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad gynllun gweithredu er mwyn gwella ansawdd aer Castell-nedd Port Talbot. Mae pob un o’r camau gweithredu a nodwyd un ai wedi’u cyflawni neu ar waith a bydd fy swyddogion yn adolygu’r cynllun ym mis Awst yn sgîl tystiolaeth a data newydd. Ar hyn o bryd, mae taflen wybodaeth am ansawdd aer Port Talbot yn cael ei dosbarthu i bob aelwyd yn yr ardal.

### Newid yn yr Hinsawdd

**C11 Christine Chapman:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru? OAQ(3)1180(ESH)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl ymrwymedig i fynd i’r afael ag achosion a chanlyniadau y newid yn yr hinsawdd. Yn sgîl yr ymgynghoriadau ar y strategaeth newid yn yr hinsawdd a gynhaliwyd yn ystod 2009, amlinellwyd y camau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd i leihau allyriadau, newid ymddygiad a’n helpu i addasu. Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi’r strategaeth derfynol yn hwyrach eleni.

### Cynlluniau Ynni Geothermol

**C12 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw

gynlluniau i gyflwyno cynlluniau ynni geothermol? OAQ(3)1224(ESH)

**Jane Davidson:** Nid ystyrir bod y dull o ddefnyddio ynni geothermol, sef dŵr cynnes o lofeydd dwfn, yn ddichonadwy yng Nghymru. Fodd bynnag, gellir defnyddio pympiau gwres i gael gwres o bridd sy'n agos at yr wyneb. Ym mis Ebrill 2011, byddwn yn rhoi cynllun grant cyfalaf ACRES, sef y cynllun lleihau carbon amaethyddol, sy'n rhan o Glastir a menter gwresogi adnewyddadwy Llywodraeth y DU ar waith er mwyn annog unigolion i ddefnyddio'r math hon o dechnoleg.

### Strategaeth Amgylcheddol

**C13 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru? OAQ(3)1178(ESH)

**Jane Davidson:** Yn ail gynllun gweithredu strategaeth amgylcheddol 2008-11, mae 41 o gamau gweithredu y mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad a 22 o bartneriaid eu rhoi ar waith. Fis Tachwedd diwethaf, lansiwyd adroddiad blynyddol y strategaeth amgylcheddol ar gyfer 2008-09 sy'n dangos y cyfraniad y mae hyn yn ei wneud i ganlyniadau ein strategaeth amgylcheddol.

### Annibyniaeth Bwyd

**C14 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynyddu annibyniaeth bwyd mewn cysylltiad ag adeiladu dycnwch cymunedol? OAQ(3)1184(ESH) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig***

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Yr wyf wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rhanddeiliaid eraill ac unigolion sy'n annog annibyniaeth bwyd ymysg cymunedau i ddatblygu opsiynau er mwyn annog a chefnogi cymunedau neu unigolion i dyfu eu cynnyrch eu hunain. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp wrthi'n diwygio ei argymhellion a disgwyliaf dderbyn ei gynllun gweithredu terfynol yn fuan.

### Hybu Cerdded a Seiclo

**C15 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu cerdded a seiclo yng Nghymru? OAQ(3)1183(ESH)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i annog mwy o bobl i gerdded a beicio. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni hyn yn y cynllun gweithredu ar gyfer cerdded a beicio ac maent yn cynnwys cefnogaeth barhaus ar gyfer menter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn ogystal â mesurau ymarferol eraill gan gynnwys hybu'r fenter yn well.